



Eich cyf/Your ref P-05-1006
Ein cyf/Our ref DET/02020/20

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

02 Medi 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Awst ynghylch yr ohebiaeth a gafodd y Pwyllgor Deisebau gan Neil Bates, sydd ar hyn o bryd yn casglu llofnodion am ddeiseb i ryddhau cyllid i'r sector diwylliant i atal lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad rhag cau.

Cafodd Cymru Greadigol ei lansio'n swyddogol ym mis Ionawr gyda cronfa fechan o £20,000 ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yn cael ei chyhoeddi yr un noson. Cafodd pedwar lleoliad (dau yng Ngogledd Cymru a dau yn y De) £5,000 yr un ddiwedd Chwefror drwy'r gronfa hon.

Cafodd 22 o fusnesau cerddoriaeth gyfanswm o £402 mil drwy'r gronfa cymorth i gerddoriaeth ar lawr gwlad, a gafodd eu canmol am eu cyflymder a'u heffeithiolrwydd gan y diwydiant a rhanddeiliaid, megis yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth, a siaradodd yn bositif yn ystod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am effaith COVID-19 ar y diwydiannau creadigol. Mae manylion llawn y rhai dderbyniodd gyllid ar gael ar <https://llyw.cymru/cefnogaeth-i-leoliadau-lleol-cerddoriaeth-yng-nghymru>

Cafodd cyfres o sylwadau gan y rhai dderbyniodd gyllid ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mae ar gael ar <https://www.wales.com/cy/cymru-greadigol/cronfa-gymorth-ar-gyfer-cerddoriaeth>

Cronfa Cymru Greadigol oedd y cymorth ariannol cyntaf oedd ar gael i fusnesau cerddoriaeth mewn unrhyw fan yn y DU, gyda'r cyfnod rhwng gwneud cais a derbyn yr arian ar gyfartaledd yn llai nag wythnos.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyma dystiolaeth bod cefnogi'r diwydiant cerddoriaeth yn flaenoriaeth i Cymru Greadigol. Rydym yn cydnabod yr amgylchiadau anodd ac ansicr iawn sy'n cael eu hwynebu gan fusnesau yn y sector ledled Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i gynnig cymorth i'r diwydiant. Rydym wedi sefydlu grŵp cymorth COVID-19 i randdeiliaid cerddoriaeth i gasglu gwybodaeth am effaith y pandemig, ac i weithio gyda'n partneriaid i weld y ffordd orau o gynnig cymorth mewn ymateb i hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £53 miliwn arall i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ddelio gydag effaith y pandemig. Bwriad y Gronfa Adferiad Diwylliannol yw rhoi cymorth hanfodol pellach i theatrau, orielau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, gwasanaethau archif, llyfrgelloedd, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol sydd wedi gweld colled enfawr o ran refeniw oherwydd y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi'r sefydliadau a'r unigolion yn y sector.

Er mwyn targedu is-sectorau penodol yn uniongyrchol, caiff y Gronfa Adfer Diwylliannol ei darparu ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Agorodd Cyngor Celfyddydau Cymru eu cronfa ar gyfer ceisiadau ar 17 Awst ac mae fy swyddogion yn gweithio i gwblhau manylion y cynllun ar gyfer cronfa Llywodraeth Cymru fydd yn cynnwys cefnogaeth i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad. Rydym yn disgwyl derbyn manylion llawn sut y bydd y broses ymgeisio yn gweithio yn fuan.

Byddwn yn parhau i gysylltu â'r sector cerddoriaeth drwy ein grŵp cymorth rhanddeiliaid COVID i helpu i sicrhau bod ein lleoliadau cerddoriaeth yn ail-agor yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism